



Atodiad 1:

Safonau'r Gymraeg

Adroddiad Monitro Blynyddol

2025-2026

Draft Dim Statws

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

This document is available in English.

Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg 2025-2026

Cynnwys

Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg 2025-2026	2
Cyflwyniad.....	4
Cefndir – fframwaith rheoleiddio a chyd-destun cyfreithiol	5
Cwynion	6
Recriwtio	9
Sgiliau Cymraeg.....	10
Cymhariaeth.....	18
Rhestr o Siaradwr Cymraeg.....	19
Hyfforddiant Cymraeg	20
Dysgu Cymraeg	21
Cyflawniadau a Chydymffurfio	25
Wefan.....	25
Staffnet.....	25
Cyfrathebu.....	26
Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol	27
Canolfan Gyswllt a Phrif Dderbynfeyd	28
Argymhellion Comisiynydd y Gymraeg.....	28
Cyfieithu	29
Cyfieithu ar y pryd.....	30
Cyfieithu Cyflym	31
Cyfieithu Cymraeg - Ysgolion	32
Gwiriwr sillafu a throedynnau e-bost Cymraeg.....	33
Cyfleusterau.....	33
Gwasanaethau Cofrestru	33
Gwasanaethau Democrataidd	33
Gymraeg yn y gweithle.....	34
Mwy Na Geiriau	35

Ymwybyddiaeth ddiwylliannol	35
Dysgu Cymraeg y Fro.....	36
Menter Bro Morgannwg	37
Gwasanaethau leuenctid	39
Ysgolion	41
Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg CSCA.....	41
Phencampwr Addysg Gymraeg Rhanbarthol	42
Grwpiau eraill	43
Y camau nesaf	44
Cysylltwch â ni – yn Gymraeg neu yn Saesneg.....	44

Cyflwyniad

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth gwych i siaradwyr Cymraeg yn yr ardal ac mae'n ymdrechu flwyddyn ar ôl blwyddyn i wella'r gwasanaeth hwnnw.

Yn ystod 2015, cawsom [Hysbysiad Cydymffurfio](#) cyfreithiol gan Gomisiynydd y Gymraeg yn nodi pa Safonau sy'n berthnasol i'r Cyngor.

Er mwyn cyflawni'r 174 o safonau yn yr hysbysiad, datblygodd y Cyngor [Gynllun Gweithredu](#) sydd wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan.

Mae'r safonau'n cael eu grwpio yn 5 categori:

- Darparu Gwasanaeth
- Lluo Polisi
- Gweithredol
- Hyrwyddo
- Cadw Cofnodion

Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i ni:

- Lluo, a chyhoeddi ar ein gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut rydym yn bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd ar y Gymraeg yn ehangach yn ein hardal. (Safonau 145, 146).
- Lluo adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n nodi sut rydym wedi cydymffurfio â'r safonau, ac yna ei gyhoeddi ar ein gwefan. (Safonau 158, 164, 170).

Gwnaethom hefyd gyhoeddi Strategaeth Hybu 5 mlynedd ar gyfer 2022-27 fel rhan o'r broses gydymffurfio. Mae hon ar gael ar ein [gwefan](#). Mae manylion y cynnydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 2. Yn unol â chymau gweithredu 3.14, gwnaethom adolygu'r cynllun gweithredu yn 2024/25.

Cefndir – fframwaith rheoleiddio a chyd-destun cyfreithiol

Mae'r adroddiad monitro blynyddol hwn yn dangos ymrwymiad parhaus y Cyngor i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd ac aelodau staff.

Mae'r Cyngor yn casglu ac yn adrodd gwybodaeth am bob mesur sy'n fesur statudol cenedlaethol ac mae'n pennu targedau ar ei gyfer. Rydym hefyd wedi mabwysiadu nifer gyfyngedig o ddangosyddion lleol sy'n cynorthwyo'r gwaith o fesur cynnydd yn erbyn y cynllun hwn. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus drwy Gynllun Gwella'r Cyngor a thrwy gynlluniau gwasanaethau, sy'n cael eu cyhoeddi bob blwyddyn ac sydd ar gael ar wefan y Cyngor - www.bromorgannwg.gov.uk

Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn cyhoeddi'r adroddiad hwn yn adran Cydraddoldeb gwefan y Cyngor ynghyd â data arall am faterion iaith.

Rydym yn adrodd ar ddangosyddion yn y pedwar maes canlynol yn unol â chais Comisiynydd y Gymraeg:

- Cwynion
- Recriwtio
- Sgiliau'r Gymraeg
- Hyfforddiant Cymraeg

Rydym hefyd yn adrodd ar weithgareddau eraill sy'n ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ogystal â'n cyflawniadau o dan ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg.

Cwynion

Safonau 158 (2) 164 (2) 170 (2d)

Rhaid i ni gadw cofnod o nifer y cwynion sy'n dod i law sy'n ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Am y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, cawsom chwe chwyn oedd yn ymwneud â'r Gymraeg.

Cwynion gan Gomisiynydd y Gymraeg	3
Cwynion a wnaed yn uniongyrchol i Swyddog y Gymraeg	3
Cwynion a wnaed yn uniongyrchol i system gwyno gorfforaethol y Cyngor	1

Fe wnaethon ni greu [Gweithdrefn Cwynion a Phryderon](#) newydd. Mae hon ar gael ar ein [gwefan allanol](#). Fe wnaethon ni ychwanegu mwy o esboniad am y broses a sicrhau bod dolen i'r wybodaeth hon ar gael o'r dudalen we cwynion a phryderon corfforaethol.

Fe wnaethon ni ddiweddarau'r canllawiau cwynion ar gyfer staff. Mae'r rhain ar gael ar Staffnet.

Cwynion a wnaed drwy swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

Rydym wedi derbyn dwy cwyn drwy swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Nid ymchwiliad swyddogol yw un o'r rhain, ond awgrym i'w ystyried ymhellach. Nid ydynt yn cymryd unrhyw gamau pellach ar yr ail gŵyn, ac mae'r drydedd yn mynd rhagddi o hyd.

Dyddiad derbyn	Natur y gŵyn	Camau a gymerwyd
----------------	--------------	------------------

04/09/2025	CS1367 Gwasanaethau Cymdeithasol Problemau gyda chyfieithu a dehongli mewn cyfarfodydd â'r Gwasanaethau Plant, a lefel sgiliau iaith Gymraeg staff.	Cafodd y gŵyn ei dderbyn yn uniongyrchol hefyd, ac roedd ymateb wedi'i anfon at y cwsmer. Cafodd llinell amser y gweithgaredd, y cyd-destun a'r rhesymau eu rhannu â Chomisiynydd y Gymraeg. Mae'r ymchwiliad yn dal i fynd rhagddo. Disgwylir y penderfyniad ym mis Mehefin 2026.
09/10/2025	CS1373 Gwasanaethau Cwsmeriad – y wefan Geiriau Saesneg yn y bwydlenni Cymraeg ar y porth cwsmeriaid ar y wefan allanol.	Cafodd y gŵyn ei dderbyn yn uniongyrchol hefyd, ac roedd ymateb wedi'i anfon at y cwsmer. Mae'r holl dudalennau a bwydlenni wedi'u cywiro. Rydyn ni wedi derbyn yr adroddiad drafft, ac rydyn ni ar hyn o bryd yn cwblhau'r camau angenrheidiol.
19/12/2025	CS1395 Rhyddid Gwybodaeth Cais rhyddid gwybodaeth wedi'i gyflwyno yn Gymraeg a'r ymateb wedi'i anfon yn Saesneg.	Cafodd ymateb Cymraeg ei anfon cyn gynted ag yr oedd y gŵyn wedi'i chodi. Cafodd y tîm eu hatgoffa o'r broses gywir. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cadarnhau na fyddan nhw'n ymchwilio nac yn cymryd camau pellach.

Cwynion a wnaed yn uniongyrchol i'r Cyngor

Rydym wedi derbyn pedair cwyn gan aelodau o'r cyhoedd. Daeth un gŵyn drwy system gwyno gorfforaethol y Cyngor a chafodd tair gŵyn eu e-bostio'n uniongyrchol at Swyddog y Gymraeg.

Dyddiad derbyn	Natur y gŵyn	Camau a gymerwyd
11/07/2025	Gwasanaethau Cymdeithasol Problemau gyda chyfieithu a dehongli mewn cyfarfodydd â'r Gwasanaethau Plant, a lefel sgiliau iaith Gymraeg staff.	Lluniodd staff y Gwasanaethau Cymdeithasol ymateb yn unol â phroses gwyno'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Fe'u hatgoffwyd o Safonau'r Gymraeg perthnasol. Derbyniwyd cwyn union yr un fath hefyd gan Gomisiynydd y Gymraeg (CS1367).
04/08/2025	Gwasanaethau Cymdogaeth Roedd arwyddion mewn toiledau menywod ar Ynys y Barri yn Saesneg yn unig.	Nododd y Gwasanaethau Cymdogaeth y bydden nhw'n trefnu i arwyddion gael eu cyfieithu a rhestr o ymadroddion defnyddiol/cyffredin gael ei llunio. Fe'u hatgoffwyd o'r gofyniad o dan y Safonau i bob arwydd fod yn ddwyieithog.
02/03/2026	Trafnidiaeth – arwyddion ffordd Roedd arwyddion ffordd dros dro ar gyfer cau ffyrdd yn Llanilltud Fawr yn	Cafodd yr arwyddion dan sylw eu tynnu a'u cywiro.

	cynnwys cyfieithiad Cymraeg anghywir	Rydyn ni wedi rhannu canllawiau ynglŷn â Safonau'r Gymraeg a'r gofynion cyfieithu.
21/07/2025	Gwasanaethau Cwsmeriad – y wefan Geiriau Saesneg yn y bwydlenni Cymraeg ar y porth cwsmeriaid ar y wefan allanol. Derbyniwyd cwyn union yr un fath hefyd ar y porth cwsmeriad.	Gofynnwyd i'r Gwasanaethau Cwsmeriaid wirio'r wefan a'u cywiro. Derbyniwyd cwyn union yr un fath hefyd gan Gomisiynydd y Gymraeg (CS1373.)

Rydym yn parhau i wneud cynnydd ar gamau gweithredu a argymhellwyd yn sgil ymchwiliadau eraill.

Recriwtio

Safonau 154, 170 (ch)


Rhaid i ni adrodd am nifer y swyddi newydd a gwag sydd wedi'u categorio'n Gymraeg hanfodol a dymunol.

Mae ein proses ymgeisio am swydd ar gael yn Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg ac mae pob swydd wag yn cael ei hysbysebu'n ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Fel rhan o'r broses recriwtio, a gofyniad Safon 136, rhaid asesu pob swydd wag am angen sgiliau Cymraeg. Ein nod yw categorio pob swydd wag newydd fel un Cymraeg dymunol o leiaf.

Cyfanswm nifer yr hysbysebion sydd wedi'u cofnodi	714	100%
---	-----	------

Sgiliau Cymraeg yn hanfodol	16	2.2%
Sgiliau Cymraeg yn ddymunol	582	81.5%
Sgiliau Cymraeg i'w dysgu wrth benodi i swydd	4	0.6%
Sgiliau Cymraeg heb eu cofnodi	112	15.7%



Rydym yn parhau i weithio gyda staff Adnoddau Dynol i sicrhau bod ein prosesau recriwtio yn cyd-fynd â'r safonau perthnasol.

Sgiliau Cymraeg

Safon 170 (2a)


Mae'n rhaid i ni fonitro ac adrodd ar nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg yn y Cyngor.

Rydyn ni wedi mesur y dangosydd hwn trwy ddadansoddi data o Asesiad Sgiliau Cymru a hidlo data staff o Fusion, y platfform adnoddau dynol.

Mae porth gweithwyr Fusion yn cipio a chofnodi sgiliau iaith y staff. Mae Adnoddau Dynol wedi cyfathrebu'r angen i ddiweddarau gwybodaeth bersonol. Mae staff yn gallu hunanasesu eu sgiliau Cymraeg a diweddarau'r wybodaeth hon yn eu manylion personol ar Fusion.

Gwnaethon ni lansio Asesiad Sgiliau Cymraeg ym mis Ionawr 2025. Cafodd hyn ei wneud drwy Ffurflen Microsoft felly nid yw wedi effeithio ar adroddiadau Fusion, oni bai bod aelodau staff wedi diweddarau eu sgiliau Cymraeg ar Fusion ar ôl cwblhau'r Asesiad Sgiliau Cymraeg. Gwnaethon ni barhau hyrwyddo'r Asesiad Sgiliau Cymraeg yn 2025/26. Mae'r Asesiad Sgiliau ar gael i'w weld [yma](#). Mae cyfanswm o 256 o aelodau staff wedi cwblhau'r asesiad sgiliau ar 31 Mawrth 2026:

Staff a gwnaeth yr Asesiad Sgiliau Cymraeg



Ynghyd â'r Asesiad Sgiliau, gwnaethon ni hefyd greu Fframwaith Sgiliau Cymraeg i'w gwneud hi'n haws i staff hunanasesu eu galluoedd Cymraeg yn fwy cywir. Cafodd y Fframwaith Sgiliau ei greu gan gyfeirio at y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, canllawiau Comisiynydd y Gymraeg, a chymorth gan awdurdodau eraill. Mae'r Fframwaith Sgiliau ar gael i'w weld [yma](#).

Rydym yn cadw cofnodion staff sydd â sgiliau Cymraeg o dan Safon 151.


Sgiliau staff ar draws y pedwar categori (Darllen, Ysgrifennu, Deall, Siarad)

Mae'r ffigurau hyn i gyd yn dibynnu ar aelodau staff yn hunanasesu eu sgiliau Cymraeg yn eu cyfrif Fusion ac felly efallai na fyddant yn gyflawn.

Mae'r tabl hwn yn cynnwys yr holl staff corfforaethol ac ysgol a ddewisodd Sylfaenol, Cymwys, Da neu Rhugl ar gyfer y pedwar cymhwysedd Cymraeg:

Cymraeg	Deall	Siarad	Darllen	Ysgrifennu
Nifer	1302	1172	1072	923

Cyfanswm	5520	5520	5520	5520
Canran	23.59%	21.23%	19.42%	16.72%



Mae hyn yn dangos cyfanswm nifer y staff yn y chwe chfarwyddiaeth sydd wedi nodi Sylfaenol, Cymwys, Da, neu Rhugl ym mhob un o'r pedwar categori (hy 'sylfaenol' ar gyfer darllen, ysgrifennu, deall a siarad).

■ Sylfaenol ■ Cymwys ■ Yn fodlon ■ Rhugl

Mae'r siartiau a'r tablau canlynol yn dangos y gwahanol lefelau sgiliau ar gyfer y pedwar cymhwysedd yn ôl cyfarwyddiaeth, fel yr adroddwyd gan staff yn system Fusion AD ar draws y cyfarwyddiaethau corfforaethol (h.y. heb gynnwys ysgolion). Mae data Fusion yn cofnodi'r holl staff a nododd fod sgiliau Deall yn sylfaenol neu'n uwch – nid yw'n cynnwys staff a ddewisodd 'dim' neu a ddewisodd beidio â chofnodi eu lefel Dealltwriaeth. Mae'r data yn cynnwys 'dim' a 'heb ei gofnodi' ar gyfer y cymhwyseddau eraill, ond er cysondeb yn yr adroddiad, mae'r cofnodion hyn wedi'u hanwybyddu: dim ond Sylfaenol, Cymwys, Da, a Rhugl sydd wedi'u cynnwys.

Sgiliau staff – darllen

	Sylfaenol	Cymwys	Yn fodlon	Rhugl	Cyfanswm
Dysgu a Sgiliau	51	6	2	20	79
Gwasanaethau Cymdeithasol	150	8	10	32	200
Amgylchedd a Thai	92	10	5	21	128
Adnoddau	72	11	8	13	104
Lle	13	2	3	5	23

Cyfanswm	378	37	28	91	534

Sgiliau staff – ysgrifennu

	Sylfaenol	Cymwys	Yn fodlon	Rhugl	Cyfanswm
Dysgu a Sgiliau	46	3	2	19	70
Gwasanaethau Cymdeithasol	115	6	11	29	161
Amgylchedd a Thai	72	5	3	19	99
Adnoddau	52	8	8	12	80
Lle	10	2	2	5	19
Cyfanswm	295	24	26	84	429

Sgiliau staff – siarad

	Sylfaenol	Cymwys	Yn fodlon	Rhugl	Cyfanswm
Dysgu a Sgiliau	67	4	2	25	98
Gwasanaethau Cymdeithasol	189	8	8	30	235
Amgylchedd a Thai	105	8	4	21	138
Adnoddau	88	5	6	14	113
Lle	19	1	3	5	28
Cyfanswm	468	26	23	95	612


Sgiliau staff - deall

	Sylfaenol	Cymwys	Yn fodlon	Rhugl	Cyfanswm
Dysgu a Sgiliau	72	4	4	20	100
Gwasanaethau Cymdeithasol	211	6	9	36	262

Amgylchedd a Thai	143	7	5	23	178
Adnoddau	98	6	7	19	130
Lle	22	2	2	6	32
Cyfanswm	546	25	27	104	702

Bu ychydig o newidiadau bach ers 2024/25. Gallai'r rhain fod oherwydd bod staff yn diweddarau eu sgiliau neu, yn fwy tebygol, oherwydd bod staff yn gadael.


Mae'r graff hwn yn dangos canran gweithlu'r cyngor sydd â sgiliau Cymraeg sydd â gradd sylfaenol i rugl ar draws y pedwar cymhwysedd, yn ogystal â chanran y staff â sgiliau siarad Cymraeg sy'n gymwys, yn dda neu'n rhugl. Mae'r canrannau wedi gostwng rhwng 2024/25 a 2025/26.




Data o'r Asesiad Sgiliau Cymraeg

Mae cyfanswm o 256 aelod o staff bellach wedi cwblhau'r Asesiad Sgiliau Cymraeg. O'r rhain, cwblhawyd 129 rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026. Mae'r ffigurau a'r siartiau canlynol yn seiliedig ar y cyfanswm, nid ar y rhai a gwblhawyd yn 2025/26 yn unig.

Mae hyn yn dangos cyfanswm nifer y staff yn y pump chyfarwyddiaeth. Fel sy'n cael ei ddangos, Sylfaenol yw'r lefel sgiliau mwyaf cyffredin ar gyfer pob maes.



Mae'r siart canlynol yn dangos cyfanswm y staff ym mhob cyfarwyddiaeth sydd wedi nodi Dim, Sylfaenol, Cymwys, Da, neu Rugl ym mhob un o'r pedwar categori (er enghraifft, 'sylfaenol' ar gyfer darllen, ysgrifennu, deall a siarad).



O'r gweithlu sydd wedi ymateb i'r Asesiad Sgiliau, nododd 203 o aelodau staff (3.7% o'r gweithlu) sgiliau Cymraeg ym mhob un o'r pedwar maes yn amrywio o sylfaenol i rugl+, a nododd 188 o aelodau staff (3.4% o'r gweithlu) sgiliau siarad Cymraeg cymwys, da, rhugl, neu rhugl+. Mae hyn yn uwch na'r ganran a adroddwyd yng Nghyfrifiad 2021 o drigolion Bro Morgannwg sy'n gallu siarad Cymraeg, sef 11.5%.

Siarad

	Dim	Sylfaenol	Cymwys	Da	Rhugl	Rhugl+	Cyfanswm
--	-----	-----------	--------	----	-------	--------	----------

Adnoddau	12	33	7	3	13	4	72
Amgylchedd a Thai	12	18	4	2	7	3	46
Dysgu a Sgiliau	4	15	8	5	9	14	55
Lle	0	10	2	2	4	3	21
Gwasanaethau Cymdeithasol	7	27	8	9	10	1	62
Cyfanswm	35	103	29	21	43	25	256

Ysgrifennu

	Dim	Sylfaenol	Cymwys	Da	Rhugl	Rhugl+	Cyfanswm
Adnoddau	21	28	5	5	9	4	72
Amgylchedd a Thai	14	17	5	0	7	3	46
Dysgu a Sgiliau	8	12	7	5	11	12	55
Lle	2	8	2	3	6	0	21
Gwasanathau Cymdeithasol	7	27	10	7	11	0	62
Cyfanswm	52	92	29	20	44	19	256

Darllen


	Dim	Sylfaenol	Cymwys	Da	Rhugl	Rhugl+	Cyfanswm
Adnoddau	15	30	8	4	10	5	72
Amgylchedd a Thai	13	14	3	4	8	4	46
Dysgu a Sgiliau	8	10	6	4	12	15	55
Lle	0	8	4	3	3	3	21
Gwasanaethau Cymdeithasol	8	25	6	7	16	0	62
Cyfanswm	44	87	27	22	49	27	256

Deall

	Dim	Sylfaenol	Cymwys	Da	Rhugl	Rhugl+	Cyfanswm
Adnoddau	12	29	10	3	13	5	72
Amgylchedd a Thai	11	16	4	2	9	4	46
Dysgu a Sgiliau	6	11	7	5	9	17	55
Lle	0	8	3	3	3	4	21
Gwasanaethau Cymdeithasol	8	23	11	2	16	2	62
Cyfanswm	37	87	35	15	50	32	256

Yn gyffredinol, bu gwelliant yn y sgiliau Cymraeg a nodwyd gan staff yn 2025/26 o'r blynyddoedd blaenorol. Mae'r ffigurau o'r llynedd i'w gweld [yma](#).

Mae'r siart ganlynol yn dangos y gwahaniaeth rhwng 2024/25 a 2025/26 yng nghanran y sgiliau siarad Cymraeg a gofnodwyd ar draws y cyngor cyfan, fel yr adroddwyd yn yr Asesiad Sgiliau Cymraeg. Mae canran y staff sy'n nodi sgiliau siarad Cymraeg 'sylfaenol' a 'cymwys' wedi gostwng, ond mae canran y staff sy'n datgan 'da', 'rhugl' neu 'rhugl+' wedi cynyddu.




Fe wnaethom gyfarwyddo staff â sgiliau siarad Cymraeg rhugl o ddata Fusion AD i gwblhau'r Asesiad Sgiliau Cymraeg er mwyn cael mynediad i Cyfieithu Cyflym, ein hofferyn cyfieithu

digidol, felly mae'n ddealladwy bod y canrannau hyn wedi cynyddu. Serch hynny, mae'n dal yn gadarnhaol gweld cynnydd yn nifer y staff sy'n nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg.


Cymhariaeth

Mae'r ddwy siart hyn yn dangos y gallu i siarad Cymraeg, yn ôl cyfarwyddiaeth, fel y'i cofnodwyd yn Fusion ac yn yr Asesiad Sgiliau Cymraeg. Mae mwy o bobl wedi nodi eu galluoedd Cymraeg ar Fusion nag yn yr Asesiad Sgiliau Cymraeg, felly nid oes modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhyngddynt. Fodd bynnag, mae'n ddiddorol gweld bod mwy o staff yn nodi sgiliau siarad sylfaenol ar Fusion tra bod mwy o staff yn datgan sgiliau siarad cymwys ar yr Asesiad Sgiliau.

Y gallu i siarad Cymraeg gan gyfarwyddiaeth - Fusion



Y gallu i siarad Cymraeg gan gyfarwyddiaeth - Asesiad Sgiliau Cymraeg



Penawdau o'r data Fusion 2025/26

- Roedd gan 702 (29.0%) o 2417 o geisiadau sgiliau dealltwriaeth sylfaenol i rugl
- Nododd 425 (17.6%) o 2417 'sylfaenol' i 'rhugl' ym mhob colofn (h.y. doedd dim 'dim/heb ei gofnodi' wedi'i nodi wrth sôn am ddarllen, ysgrifennu, siarad chwaith)
- Nododd 1715 (82.41%) naill ai 'dim' neu nad oeddent yn cofnodi sgiliau ar gyfer Deall
- Nododd 1992 (71.0%) 'dim/heb ei gofnodi' mewn o leiaf un golofn

Penawdau o'r data Asesiad Sgiliau Cymraeg 2025/26

- Roedd gan 220 (85.6%) o geisiadau sgiliau dealltwriaeth sylfaenol i rugl
- Nododd 203 (79.8%) o 2417 'sylfaenol' i 'rhugl' ym mhob colofn (h.y. doedd dim 'dim/heb ei gofnodi' wedi'i nodi wrth sôn am ddarllen, ysgrifennu, siarad chwaith)
- Nododd 37 (14.4%) 'dim' sgiliau ar gyfer Deall
- Nododd 52 (20.2%) 'dim/heb ei gofnodi' mewn o leiaf un golofn
- Nododd 33 (12.8%) 'dim' ym mhob colofn

Rydym yn parhau i hyrwyddo a monitro'r Asesiad Sgiliau. Ein nod yw anfon negeseuon wedi'u targedu o bryd i'w gilydd am gyrsiau Cymraeg at staff sydd wedi adrodd nad oes ganddyn nhw unrhyw allu iaith Gymraeg, na sgiliau Cymraeg sylfaenol.

Rydym yn parhau i archwilio sut y gallwn ddefnyddio data o'r Asesiad Sgiliau a Fusion orau i fesur sgiliau Cymraeg ein staff yn fwyaf cywir.

Rhestr o Siaradwr Cymraeg

Gwnaethon ni ddiweddarau'r rhestr o siaradwyr Cymraeg a sicrhau bod y rhestr wedi'i diweddarau yn cael ei rhannu ar dudalennau newydd Staffnet.

Fe wnaethom arolygu aelodau staff ar y rhestr am eu dewisiadau o ran yr hyn maen nhw'n fodlon ei wneud: ateb galwadau ffôn, delio ag ymholiadau mwy manwl, cymryd cofnodion, prawfddarllen cyfieithiadau, a drafftio cynnwys; ac i bwy: eu hunain, eu tîm, eu maes

gwasanaeth, eu cyfarwyddiaeth, neu'r cyngor cyfan. Mae hyn yn sicrhau bod gan staff reolaeth ac ymreolaeth dros eu hamser a sut maen nhw'n defnyddio'r Gymraeg ar ran cydweithwyr eraill.

Gwnaethon ni drefnu bod neges o ddiolch yn cael ei hanfon gan y Prif Weithredwr.

Hyfforddiant Cymraeg

Safon 170 (2b)

Rhaid i ni adrodd ar nifer y staff sy'n ymgymryd â hyfforddiant ac i ba lefel neu radd o hyfedredd.

Dan Safon 128, mae'n rhaid i'r Awdurdod gynnig rhaglenni hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer y cyrsiau canlynol os ydynt hefyd yn cael eu cynnig yn Saesneg:

- Iechyd a diogelwch ar gyfer rheolwyr
- Sefydlu corfforaethol
- Rheoli perfformiad
- Cwrs sefydlu rheoli corfforaethol

O'r cyrsiau a gynigir yn Gymraeg, ni ofynnwyd am unrhyw un yn Gymraeg gan aelodau o staff yn yr adrannau Datblygu a Dysgu Sefydliadol; Codi a Chario na'r Gwasanaethau Cymdeithasol. O'r herwydd, roedd presenoldeb yn 0% ar gyfer staff a oedd yn cwblhau'r cyrsiau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gwnaethon ni gyflwyno cwrs newydd Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar iDev a oedd ar gael i bob aelod o staff ei gyrchu. Yn flaenorol, dim ond i staff y Gwasanaethau Cymdeithasol yr oedd ar gael. Cwblhaodd cyfanswm o 8 person y cwrs yn 2024/25.

Parhawyd i hyrwyddo'r cwrs Ymwybyddiaeth Gymreig ar IDev i'r holl staff, gan gynnwys staff y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn 2025/26.

Dysgu Cymraeg

Standard 130, 131, 132

Bu newidiadau sylweddol i'n cynnig dysgu Cymraeg yn ystod 2025 – 2026.

Fe wnaeth y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol dynnu cyllid ar gyfer ein Cydlynnydd Cymraeg Gwaith llawn amser ym mis Ebrill 2025. Rydym yn parhau i fod yn rhan o'r cynllun Iaith Gwaith, ond does dim tiwtor a chydlynnydd ymroddedig amser llawn gennym mwyach. Parhaodd y dosbarthiadau yn ystod tymor yr haf, ond roedd yn anodd hyrwyddo a chynllunio ar gyfer mwy o ddosbarthiadau Cymraeg yn ystod y cyfnod hwn. Daeth cyrsiau Iaith Gwaith i ben ar ôl tymor haf 2025, ac eithrio un cwrs Canolradd a barhaodd tan Nadolig 2025.

Cynghorodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fod angen cwrs treial neu gyflwyniad i asesu diddordeb yn iawn, gan mai dim ond dosbarthiadau cynaliadwy o 8-10 neu fwy o bobl y bydden nhw'n eu hariannu. Yn dilyn hynny, cynhaliwyd arolwg yn ystod yr haf i asesu diddordeb mewn cyrsiau Cymraeg ar gyfer tymor yr hydref. Gofynnwn ni am lefel dysgu Cymraeg, hyd y cwrs ac amser y dosbarth. Ymatebodd 82 aelod o staff. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn ffafrio cwrs byrrach (awr yr wythnos am ddeng wythnos) gyda dros 73% o'r ymatebwyr yn nodi y bydden nhw am ddysgu ar lefel Mynediad.

Ar sail canlyniadau'r arolwg, fe ddewiswn ni ganolbwyntio ar ddysgwyr lefel mynediad. Fe benderfynwn ni ar gwrs deng wythnos 'Cyflwyniad i'r Gymraeg' i redeg am awr yr wythnos rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2025. Fe gynhalion ni bedwar dosbarth ar bedwar adeg wahanol yn ystod yr wythnos, gan gynnwys dosbarth personol. Roedd ein cyn-Gydlynnydd Iaith Gwaith yn rhedeg pob un o'r pedwar dosbarth trwy Dysgu Cymraeg y Fro. Roedd y dosbarthiadau'n dda, gyda dros 40 o aelodau o staff yn cwblhau'r cwrs.

Gan fod y cwrs Cyflwyniad i'r Gymraeg yn llwyddiannus, roedd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn fodlon ariannu cwrs Mynediad ffurfiol tymor hwy. Fe wnaethon ni gynnal ail arolwg yn ystod tymor yr hydref gyda dysgwyr y cwrs Cyflwyniad a staff ehangach i fesur diddordeb. Roedden ni'n gallu lansio tri dosbarth lefel Mynediad dwy awr yr wythnos ym mis Ionawr 2026 oedd yn rhedeg ar wahanol adegau a dyddiadau ar gyfer cyfanswm o 35 aelod o staff, eto trwy Dysgu Cymraeg y Fro. Disgwylir i'r cwrs ddod i ben erbyn Pasg 2027.

Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025-26, o fis Medi 2025 ymlaen, fe wnaethon ni gyfeirio staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg ar lefelau uwch at ddarparwyr Dysgu Cymraeg. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn parhau i ariannu'n llawn yr holl staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg gyda'r darparwyr hyn.

Rydyn ni'n gobeithio cynnal ail gwrs Cyflwyniad i'r Gymraeg yn haf 2026, gyda'r nod o lansio carfan lefel Mynediad arall ym mis Medi 2026.

Nifer y Dysgwyr

Yn ystod tymor olaf blwyddyn academiaidd 2025-2026, roedd 23 aelod o staff yn dysgu Cymraeg trwy gwrs laith Gwaith a gyflwynwyd gan y Cydlynnydd laith Gwaith yng Nghyngor Bro Morgannwg.

Nifer y staff ar gwrs Cymraeg Gwaith erbyn diwedd tymor yr haf 2025	
Mynediad / Entry	12
Sylfaen / Foundation	Ar gau ym mis Ebrill 2025
Canolradd / Intermediate	8
Uwch / Higher	2
Gloywi / Proficient	1

Roedd y cwrs Canolradd i ddod i ben ddydd Nadolig 2025 a dyma'r unig gwrs laith Gwaith 'mewnol' gyda'n Cydlynnydd i redeg ar ôl gwyliau'r haf.

Nifer y staff ar gwrs Cymraeg Gwaith erbyn diwedd tymor yr hydref 2025
--

Canolradd / Intermediate	5
--------------------------	---

Fe wnaeth y cwrs Cyflwyniad i'r Gymraeg redeg am ddeng wythnos ar draws pum dosbarth.

Nifer y staff ar y cwrs deg wythnos Cyflwyno i'r Gymraeg tymor yr hydref 2025	
Dechreuwyd / Cofrestrwyd	48
Wedi cwbl	47

Dechreuodd cwrs Mynediad newydd ym mis Ionawr 2026. Mae tri dosbarth yn rhedeg am ddwy awr yr wythnos am oddeutu 15 mis.

Nifer y staff ar y cwrs Mynediad yn dechrau mis Ionawr 2026	
Registered / started	35
Attending by April 2026	33

Cafodd staff a oedd yn dymuno dysgu Cymraeg ar lefel uwch o fis Medi 2025 eu cyfeirio at bob darparwr Dysgu Cymraeg arall. Mae'r cyrsiau yn gymysgedd o gyrsiau ar-lein, wyneb yn wyneb, hunanastudio, a chyfuniad (cymysgedd o sesiynau ar-lein, wyneb yn wyneb a hunanastudio).

Nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg ar ôl mis Medi gyda'r holl ddarparwyr dysgu Cymraeg ar bob lefel	
Blasu	7
Mynediad	6 (+35 ym mis Ionawr 2026)
Sylfaen	14
Canolradd	7
Uwch	6
Gloywi	1
Codi Hyder	1

Nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg ar ôl mis Medi gyda darparwyr Dysgu Cymraeg	
Cymraeg Gwaith – cwrs cymysg	5

Dysgu Cymraeg Caerdydd	6
Dysgu Cymraeg Ceredigion-Powys-Sir Gâr	1
Dysgu Cymraeg Gwent	1
Dysgu Cymraeg Morgannwg	5
Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn	2 (1 x cwrs preswyl, 1 x prif cwrs)
Dysgu Cymraeg Sir Benfro	2
Dysgu Cymraeg y Fro	72 (+ 35 cofrestru ar gwrs Mynediad ym mis Medi 2026)
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	2 (hunanastudio)

Yn ogystal, fe wnaethon ni gynnig cwrs Cymraeg lefel cwrteisi 90 munud i bob aelod o staff. Fe wnaethon ni hyrwyddo'r cwrs hwn hefyd i reolwyr timau gyda staff sy'n wynebu cwsmeriaid. Yn ystod 2025-2026, dim ond un aelod o staff a gwblhaodd y cwrs lefel cwrteisi.

Gwnaethon ni hyrwyddo'r cyrsiau ar-lein Dysgu Cymraeg ar dudalennau Hyb ac yn ddiweddarach Staffnet. Gwnaethon ni hefyd hyrwyddo'r rhain yn uniongyrchol gyda staff y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Trosolwg


Blwyddyn	Nifer y staff y cyngor a gwblhaodd gwrs/ar gofrestr yn 2025/26	Targed
2022 / 2023	58	58
2023 / 2024	38	64
2024 / 2025	29	64
2025 / 2026	96	64

Cyflawniadau a Chydymffurfio


Wefan

Mae golygydd y wefan yn atgoffa am gyfieithiad Cymraeg cyn y gellir diweddarau tudalennau Saesneg, gan sicrhau bod y wefan yn gwbl ddwyieithog.

Mae adolygiad o dudalennau gwe hanesyddol ar y gweill gan dîm golygydd y we i sicrhau bod pob tudalen, dewislen a ffurflen yn gwbl weithredol ac wedi eu cyfieithu'n gywir.




Gwnaethom ychwanegu tudalen sblass i'r wefan allanol ym mis Rhagfyr 2025, sy'n dod i fyny ar gyfer www.valeofglamorgan.gov.uk a www.bromorgannwg.gov.uk. Mae hyn yn sicrhau bod defnyddwyr yn cyrchu'r wefan yn eu hiaith o'u dewis, o'r dechrau.



Staffnet

Lansiwyd fersiwn newydd o Staffnet, ein mewnrwyd fewnol, ym mis Ionawr 2026 fel gwefan SharePoint. Mae hon yn cymryd lle'r gwefannau blaenorol Staffnet a Staffnet+. Er bod

Staffnet+ ar gael yn Gymraeg, nid oedd hyn yn wir yn achos gwefan hŷn Staffnet. Mae'r Staffnet newydd ar gael yn llawn yn Gymraeg, gyda phob tudalen a dogfen yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog. Mae hyn yn gam cadarnhaol i staff y mae'n well ganddynt weithio a chael mynediad i wybodaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae staff yn gallu newid rhwng ieithoedd gan ddefnyddio togl syml yng nghornel dde uchaf y wefan.



Mae'r Staffnet newydd wedi'i drefnu'n dair thema: Eich Bro, Ein Bro a Bro 2030. Nid oedd yr Hyb Cymraeg, a lansiwyd yn 2024, yn gallu cael ei gategoreiddio'n llawn o dan un thema, felly mae cynnwys sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn ymddangos mewn sawl maes bellach. Er enghraifft, mae'r tudalennau Cyfieithu Cymraeg, Defnyddio Cymraeg yn y Gweithle a Dysgu Cymraeg wedi'u cynnwys o dan Eich Bro, tra bod y dudalen Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg wedi'i chynnwys yn Ein Bro. Mae pob tudalen yn cynnwys dolenni i gynnwys cysylltiedig, gan ei gwneud hi'n hawdd i staff lywio trwyddynt a dod o hyd i'r hyn sydd ei angen arnynt.

Ym mis Chwefror 2026, roedd y dudalen Cyfieithu Cymraeg ymhlith y deg tudalen yr ymwelwyd â nhw fwyaf, sy'n awgrymu bod y wefan newydd yn haws ei defnyddio a bod staff yn gallu dod o hyd i wybodaeth yn fwy effeithiol. Mae'n galonogol gweld bod cyfieithu Cymraeg yn parhau i fod yn flaenoriaeth glir i staff.

Cyfrathebu

Mae Staffnet newydd yn gwbl ddwyieithog. Mae'n caniatáu mynediad at wybodaeth am eitemau newyddion mewnol, slipiau cyflog, swyddi gwag mewnol, polisiâu, a mwy.

Mae'r Prif Weithredwr yn anfon neges wythnosol a chrynodeb o newyddion i'r holl staff ar ddiwedd pob wythnos. Anfonir hyn yn Gymraeg ac yn Saesneg gan ebost, neges Teams, ac ar Staffnet.

Mae'r Tîm Cyfathrebu yn anfon e-byst rheolaidd a negesau Teams at holl staff Bro Morgannwg. Mae'r rhain yn cael eu hanfon yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r holl erthyglau newyddion sy'n cael eu postio ar Staffnet ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol


Fe wnaethon ni gynnal archwiliad o'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol, fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae adroddiad thematig Comisiynydd y Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol i'w weld [yma](#).

